**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**20 Mawrth 2017**

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Gofynnir i Aelodau gymeradwyo'r adroddiad drafft atodol a gaiff ei gyflwyno i'r Awdurdod ym mis Mawrth.

## Cefndir

2 Fel mater o lywodraeth gorfforaethol dda mae'r Pwyllgor yn darparu'r Awdurdod Tân ac Achub gydag adroddiad blynyddol o'i weithgarwch yn ystod pob blwyddyn ariannol.

3 Mae deuddegfed adroddiad blynyddol y Pwyllgor ynghlwm er ystyriaeth yr Aelodau.

## Argymhelliad

4 Gofynnir i Aelodau nodi a chymeradwyo adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR SAFONAU**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

## Cefndir

Dyma'r deuddegfed adroddiad gan y Pwyllgor Safonau i'r Awdurdod Tân ac Achub ac mae'n cynnwys y cyfnod o fis Ebrill 2016 hyd fis Mawrth 2017. Mae deddfwriaethau'n gofyn i'r Pwyllgor Safonau gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn darparu cylch gwaith i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau'r Awdurdod a goruchwylio polisi chwythu'r chwiban ar gyfer cwynion yn erbyn yr Awdurdod. Hefyd, pan fo deddf yn caniatáu, i dderbyn adroddiadau a chwynion am aelodau, gwneud neu oruchwylio archwiliadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod.

## Aelodaeth

Mae cyfnodau swydd Celia Blomeley a Jane Eyton-Jones ar y pwyllgor yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2017. Yn dilyn dyfodiad Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006, mae modd ailbenodi aelod annibynnol am gyfanswm o un cyfnod pellach, hyd at bedair blynedd. Nid oes gofyniad cyfreithiol i hysbysebu lle gwag os mai'r bwriad yw ailbenodi.

Dyma ddiwedd ail gyfnod y ddwy aelod felly nid ydynt yn gymwys ar gyfer cael eu hail-benodi. Caiff trefniadau i'w gwneud i hysbysebu'r swyddi hyn yn nes ymlaen yn 2017. Diolch i'r ddwy am eu gwaith dros y blynyddoedd.

Hefyd, cynhelir etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017 ac felly rydym yn diolch i'r Cynghorwyr Evans a Dunn am eu cyfraniadau dros y pum mlynedd diwethaf.

Aelodau annibynnol
Celia Blomeley 01/01/2014 - 31/12/17
Jane A Eyton-Jones 01/01/2014 - 31/12/17
David Morris 01/09/14 - 31/08/18
Antony P Young 01/04/16 - 31/03/20

Aelodau Awdurdod Tân ac Achub
Y Cynghorydd Brian Dunn (18/06/12 ymlaen)
Y Cynghorydd Jim G Evans (18/06/12 ymlaen)

**Presenoldeb a Materion**

Cyfarfu'r Pwyllgor Safonau ar 1 Mawrth 2017 ac roedd yr aelodau canlynol yn bresennol:

Jane A Eyton-Jones (Cadeirydd)
Celia Blomeley
Antony P Young
Y Cyng Brian Dunn, Cyngor Sir y Fflint.

Yn y cyfarfod hwnnw, cafodd yr aelodau ddiweddariad am gyfarwyddyd diwygiedig ar y cod ymddygiad. Nodwyd hefyd y cofnodion o gyfarfod y Fforwm Safonau Gogledd Cymru, ble bu i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus roi cyflwyniad ac yna sesiwn holi ac ateb.

**Cwynion yn erbyn aelodau o'r Awdurdod Tân ac Achub**

Ni fu cwyn ynglyn ag aelod o'r ATA yn ystod y cyfnod hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae'r gyllideb ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn dod o dan bennawd gwasanaethau pwyllgorau sydd ar gyfer holl gostau'r Awdurdod. Yn dilyn cymeradwyo cynllun cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau ar 18fed Mehefin 2012, gall yr aelodau annibynnol erbyn hyn hawliau cydnabyddiaeth ariannol yn seiliedig ar gyfarfodydd a digwyddiadau a fynychir. Hyd yn hyn, ni wnaed unrhyw hawliau.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor Safonau'n argymell fod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn nodi ei adroddiad.